



---

# **ADRODDIADAU ARHOLWYR**

---

**LLWYBRAU MYNEDIAD  
CYMRAEG**

**IONAWR 2019**

## LLWYBRAU MYNEDIAD

### CYMRAEG

Ionawr 2019

Diolch yn fawr iawn i athrawon Cymru am waith hynod o werthfawr gyda'r ymgeiswyr sy'n sicrhau eu bod yn profi llwyddiant ar y lefel hon.

#### **Uned 6360 – Trafod Profiadau a Theimladau**

Mor braf yw clywed ymgeiswyr yn mwynhau siarad a sgwrsio mewn iaith naturiol a chyfoethog. Mae hyn yn digwydd ar ei orau pan fydd ymgeiswyr yn mwynhau trafod testunau o wir ddiddordeb a phrofiad iddynt. Llwydda'r goreuon i gynnal sgwrs ddifyr, yn enwedig wrth i athrawon ddefnyddio cwestiynau agored a sensitif. Yn anffodus mae cwestiynau caeedig sy'n gofyn am ymateb un gair yn golygu na ellir gwobrwyo mwy na lefel M2 i'r ymgeisydd. Yn anffodus roedd rhai enghreifftiau lle roedd ysgolion wedi sgriptio'r trafodaethau'n glogyrnaidd a diflas. Ni ellir gwobrwyo hyn ar unrhyw gyfrif am mai darllen sgript oedd yr ymgeiswyr, ac nid dyna hanfod y dasg. Hanfod y dasg yw sgwrsio'n naturiol. Mae digon o enghreifftiau ar gael ar wefan ddiogel CBAC. Mae 3-5 munud o sgwrs yn ddigonol.

#### **Uned 6361 – Trawsieithu**

Roedd y goreuon yn yr uned wedi llwyddo cywain gwybodaeth o destunau Saesneg amrywiol ac roeddynt wedi defnyddio'r wybodaeth honno er mwyn cyflwyno gwybodaeth yn y Gymraeg mewn ffordd ddiddorol a chreadigol. Mae angen deunydd darllen heriol er mwyn cyflawni gwaith Mynediad 3 a chywain gwybodaeth fanwl. Fe welir digon o enghreifftiau ar y wefan ddiogel.

#### **Uned 6362 – Ymateb i ffilm / Rhaglen Deledu**

Roedd yr ymgeiswyr ar eu gorau wedi mwynhau trafod rhaglen/ffilm cwbl addas o fewn eu profiad mewn dyfnder, a'r goreuon ar M3 yn gallu cyfeirio at dechnegau ffilm. Roedd holi pwrpasol athrawon yn allweddol wrth sicrhau ymatebion aeddfed a threiddgar ymgeiswyr, yn enwedig pan fo ymgeisydd M2 a M3 yn yr un grŵp. Bryd hynny, mae angen sicrhau nad yw'r ymgeisydd mwyaf galluog yn cael ei ffrwyno. Yn anffodus eto roedd ambell ganolfan wedi sgriptio'r sgwrs yn gaeth – ni ddylid gwneud hyn. Disgwylir trafodaeth naturiol.

#### **Uned 6363 – Ymateb i Ryddiaith**

Llwydda'r ymgeiswyr i ymateb yn ddiddorol i ddeunydd addas o fewn eu profiad. Er bod lle i fod yn greadigol, mae angen cadw at ffeithiau'r testun a astudiwyd. Cofier bod angen bwrw pob un o'r meini prawf, a bod gwaith M3 yn gofyn am gryn dipyn o ysgrifennu estynedig.

#### **Uned 6364 – Ysgrifennu Stori**

Llwydda'r ymgeiswyr gorau i ddangos ôl cynllunio a pharatoi, a chafwyd ymdrech i ddisgrifio a chreu nodweddion arddull a naws, a oedd at ei gilydd yn creu straeon diddorol, gwreiddiol, a bywiog. Er mwyn sicrhau M3 rhaid wrth straeon eithaf estynedig yn hytrach na rhai arwynebol a syml.



CBAC  
245 Rhodfa'r Gorllewin  
Caerdydd CF5 2YX  
Ffôn: 029 2026 5000  
Ffacs: 029 2057 5994  
E-bost: [arholiadau@cbac.co.uk](mailto:arholiadau@cbac.co.uk)  
gwefan: [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)